DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Deintyddfa Benllech

25 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-5200-8


© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Methodoleg .......... 2
3. Cyd-destun .......... 4
4. Crynodeb .......... 5
5. Canfyddiadau .......... 6

   Profiad y Claf .......... 6

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 8

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 11

   Gwelsom fod gweithdrefn gwyno’r practis yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG. Nid oedd unrhyw gwynion neu bryderon yn parhau ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â pherchennog y practis a rheolwr y practis ynglŷn â'r prosesau cwyno yn gyffredinol, a chawsom ein bodloni bod ganddynt systemau a gweithdrefnau cadarn ar waith pe bai cwynion ffurfiol neu'n anffurfiol yn cael eu derbyn. .......... 12

   Ansawdd yr Amgylchedd .......... 13

6. Y Camau Nesaf .......... 15

   Atodiad A .......... 16

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o Ddeintyddfa Benllech yn Ffordd Bangor, Benllech, Ynys Môn, LL74 8TG, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 25 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Benllech yn darparu gwasanaethau i oddeutu 5,000 o gleifion ym Menllech ac ardaloedd cyfagos ar Ynys Môn. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau deintyddol ar gyfer cleifion o dan drefniadau'r GIG. Fodd bynnag, mae un deintydd hefyd yn cynnig gwasanaeth gwynnu dannedd y mae'r cleifion yn talu amdano.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd (gan gynnwys un deintydd rhan amser newydd a gymerodd dros y practis yn Ebrill 2015), pedair nyrs ddeintyddol (sy'n cynnwys dwy nyrs dan hyfforddiant), ac un rheolwr practis/derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau, diagnosis a gofal ataliol
- Pelydrau-X
- Tynnu cen a sgleinio
- Llenwadau
- Triniaeth sianel y gwreiddyn
- Tynnu dannedd
- Coronau a phontydd

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn ystyried sut mae Deintyddfa Benllech yn cyrraedd y safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Derbyniodd AGIC 17 o holiaduron cleifion wedi eu cwblhau yn ystod yr arolygiad. Roedd cleifion yn unfrydol eu barn o ran derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, bod yn fodlon ar y gwasanaethau, a chael croeso cynnes gan y staff. Gwelsom fod y wybodaeth ysgrifenedig am y practis yn hawdd cael gafael arni gan y cleifion.

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau a gweithdrefnau boddhaol ar waith, gan sicrhau bod triniaeth gleifion yn cael ei thanategu gan gydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. Roedd perchennog newydd y practis eisoes wedi gwella rhai o'r cyfleusterau clinigol o fewn yr adeilad. Gwnaethom gynghori'r practis ar sut y gallent wella'u systemau ymhellach mewn rhai meysydd, a dylai'r rhain eu cynorthwyo o ran dibenion monitro neu archwilio. Rydym hefyd wedi awgrymu ychydig o offer deintyddol amgen y gellid eu hystyried.

Yn gyffredinol, roedd safon y gwaith o gadw cofnodion yn dda. Roedd system gyfrifiadurol newydd yn cael ei gosod, gan ragweld ryw ddyddiad yn ystod mis Medi 2015 i'w rhoi ar waith.

Gwnaeth perchnogaeth Deintyddfa Benllech newid dwylo yn ystod Ebrill 2015. Roedd perchennog/deintydd newydd y practis yn dal wrthi'n datblygu a/neu adolygu systemau, polisïau a gweithdrefnau. Canfuom ei fod yntau a rheolwr y practis yn gynorthwyol ac yn frwdfrydig o ran gwella a chodi safonau pan fo hynny'n bosibl. Yn gyffredinol, roedd y practis yn cael ei reoli'n effeithiol ac roedd gan y tîm staff ddealltwriaeth glir o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Rydym wedi argymell ychydig o welliannau o ran cyfleoedd dysgu ar gyfer staff a gwiriadau recriwtio.

Gwelsom fod y practis yn hygyrch, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac ar y cyfan yn addas i'r diben. Fodd bynnag, rydym wedi cynghori perchennog y practis i ystyried pa un a fyddai'n bosibl gwella'r cyfleusterau toiled a'r fynedfa er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ag anawsterau symudedd ddod i mewn i'r practis.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Derbyniodd AGIC 17 o  holiaduron wedi'u cwblhau gan gleifion yn ystod bore'r arolygiad. Dywedodd y cleifion yn unfrydol eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, a'u bod yn cael croeso cynnes gan y staff. Yn gyffredinol, gwelsom fod y wybodaeth ysgrifenedig am y practis ar gael i gleifion, ac yn hawdd ei chyrraedd.**

Roedd y sylwadau ychwanegol gan gleifion a dderbyniwyd gennym yn gadarnhaol iawn. Mae sampl o'r rhain wedi'u cynnwys isod:

> "*Mae staff wedi mynd â phresgripsiwn i fferyllydd ar fy rhan, a gwnaeth hynny fy arbed  gwneud taith neilltuol i Benllech. Dwi'n gwerthfawrogi hyn yn fawr."*
>
> "*Mae arna'i ofn deintyddion, ac mae'r staff i gyd yn gwneud i fi deimlo'n ddiogel ac yn tawelu fy meddwl bob tro dwi'n dod, pa un ai i gael archwiliad neu i dderbyn triniaeth .Practis  ardderchog."*
>
> "*Practis hyfryd, cymysgedd o staff Cymraeg a Saesneg eu hiaith, ac er nad ydw i'n siarad Cymraeg, mae'n neis ei gweld/chlywed."*

Awgrymodd un o'r cleifion y gallai'r staff gynnig sgleinio'i ddannedd a rhoi gwybod iddynt am gost y gwasanaeth. Gwnaeth perchennog a rheolwr y practis ein hysbysu bod y gwasanaeth hwn erbyn hyn yn cael ei gynnig i gleifion. Gwelsom hefyd hysbysiad wedi'i osod ar ddesg y dderbynfa ynglŷn â hyn, a oedd yn cynnwys y gost.

Roedd pump o'r cleifion wedi profi oedi wrth gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Fodd bynnag, gwnaethant ychwanegu sylwadau i nodi nad oedd yr oediadau yn achosi  anghyfleustra, gan eu bod yn digwydd yn anaml neu am amser byr iawn.

Roedd deg o gleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, er i dri o gleifion ychwanegu nad oeddent erioed wedi angen gwneud, neu'n amau os byddent byth angen gwneud, ac os felly byddent yn siarad â'r staff. Gwelsom fod gan y practis hysbysiad yn gwahodd cleifion i wneud sylwadau am y gwasanaeth ac yn eu cyfeirio at y weithdrefn gwyno. Gwelsom fod hysbysiad a thaflenni GIG 'Gweithio i Wella' (sydd ymdrin â'r broses gwyno ar gyfer gwasanaethau’r GIG) wedi'u harddangos yn yr ystafell aros.

Roedd gan y cleifion fynediad at fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r daflen wybodaeth i gleifion, gan gynnwys manylion am yr oriau agor, manylion cyswllt (gan gynnwys ar gyfer allan o oriau), ffioedd am wasanaethau'r GIG, a gweithdrefnau cwyno.

Fe'n hysbyswyd bod yr holiaduron wedi cael eu dosbarthu i gleifion gan y perchennog blaenorol yn ystod mis Tachwedd 2014. Gan fod y practis wedi newid dwylo ers hynny, nid oedd y rhain ar gael inni archwilio. Fodd bynnag, gwnaeth perchennog newydd y practis ddangos holiadur inni, a dywedodd yntau y bydd yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd i'r cleifion er mwyn derbyn eu hadborth am y gwasanaethau yn gyffredinol. Gwnaethom atgoffa perchennog y practis a'r rheolwr, pan fo'n bosibl, y dylent fod yn gallu dangos y byddant yn gweithredu ar adborth cleifion ac yn ei ddefnyddio i lywio newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Yn gyffredinol,  gwelsom fod systemau a gweithdrefnau boddhaol ar waith, gan sicrhau bod triniaeth y cleifion yn cael ei thanategu gan gydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. Roedd perchennog newydd y practis eisoes wedi gwella rhai o'r cyfleusterau clinigol o fewn yr adeilad. Gwnaethom gynghori'r practis ar sut y gallent wella'u systemau ymhellach mewn rhai meysydd, a dylai'r rhain eu cynorthwyo o ran dibenion monitro neu archwilio. Rydym hefyd wedi awgrymu ychydig o offer deintyddol amgen y gellid eu hystyried.**

**Yn gyffredinol, roedd safon y gwaith o gadw cofnodion yn dda. Roedd system gyfrifiadurol newydd yn cael ei gosod ar y pryd, gan ragweld ryw ddyddiad yn ystod mis Medi 2015 i'w rhoi ar waith.**

Fe'n hysbyswyd bod y perchennog blaenorol wedi diddymu'r holl bolisïau a oedd ar waith ynghynt. Felly, roedd set newydd o bolisïau wedi cael ei gweithredu ers mis Ebrill 2015, a gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain.

Nid oedd tystiolaeth ddogfennol yn dangos bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi awdurdodi defnyddio a phrosesu pelydrau-X yn y practis. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. Felly, yn unol â'n proses sicrwydd ansawdd ar unwaith, gwnaeth AGIC ofyn i'r practis gymryd camau gweithredu ar unwaith i gyflawni hyn. Yn dilyn hyn, ac yn ddiweddarach ar yr un diwrnod, cafodd AGIC ei chopïo i mewn i e-bost gan y practis a anfonwyd at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a hefyd derbyniodd AGIC gopi o lythyr a oedd wedi ei anfon at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gan y darparwr blaenorol yn 2009.

Gwelsom dystiolaeth ddogfennol a oedd yn dangos bod hyfforddiant wedi'i gynnal yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ar gyfer un o'r deintyddion. Fe'n hysbyswyd bod hyfforddiant wedi'i gwblhau gan ddau ddeintydd arall, roedd yr un ohonynt heb ddechrau darparu triniaethau deintyddol eto. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddwyd tystiolaeth ddogfennol i ni yn dangos bod hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio wedi'i gynnal gan yr ail ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod copïau o'r tystysgrifau hyfforddiant, sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio, ar gael yn y practis yn y dyfodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom gynghori'r practis i gadw yn y ffeil diogelu rhag ymbelydredd gopïau o'r holl ohebiaeth a'r tystysgrifau hyfforddiant perthnasol ar gyfer***

***radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd (gan gynnwys y rhai ynglŷn â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.Dylai hyn gynorthwyo'r practis i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ac i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.***

Nid oedd tystiolaeth bod ansawdd delweddau'r peldyrau-X wedi cael ei archwilio'n ddiweddar. Felly, gwnaethom argymell y practis i weithredu system archwilio reolaidd a gweithdrefnau gwella ansawdd at y diben hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gweithredu system i archwilio delweddau radiograffig yn rheolaidd. Byddem yn awgrymu bod y practis yn cyfeirio at 'Canllawiau Gwella Ansawdd ar gyfer Timoedd Deintyddol'[4] gan GIG Cymru, sydd yn rhoi canllawiau ac yn cysylltu dulliau gwella, gan gynnwys llyfr dulliau Deoniaeth Cymru ar gyfer archwiliadau clinigol.***

Yn ystod bore ein harolygiad hwn, gwnaethom nodi nad oedd gan y practis yr holl feddyginiaeth angenrheidiol pe bai argyfwng yn digwydd. Yn dilyn ein trafodaethau, gwnaeth perchennog a rheolwr y practis gael copi o'r holl feddyginiaethau sydd eu hangen mewn practisau deintyddol, gan archebu'r rhain wedi hynny. Gwnaethom dderbyn copi o'r ffurflen archebu yn hwyrach ar y diwrnod hwnnw fel tystiolaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gweithredu system i sicrhau bod gan y practis gyflenwad o feddyginiaeth sydd ei hangen pe bai argyfwng yn digwydd, a dylid newid y rhain yn ôl eu dyddiadau dod i ben.***

***Gwnaethom gynghori'r practis i gynnwys pecynnau nodwyddau a llwybrau anadlu yn y gwiriadau hyn ac i gadw llyfryn cofnodion dyddiol o'r cyfarpar ocsigen.***

Canfuom fod perchennog/deintydd newydd y practis yn rhagweithiol mewn symud tuag at yr arfer gorau. Er enghraifft roedd ystafell ddadheintio

---

[4] www.1000ofywydauamwy.wales.nhs.uk/hafan

ddynodedig newydd wedi cael ei chreu, roedd system ddigidol i brosesu pelydrau-X yn cael ei phrynu, ac roedd rhai o offer y ddeintyddfa eisoes wedi cael eu newid. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth â chyflenwad da o offer deintyddol. Fodd bynnag, roedd y blaenau chwistrell 3 mewn 1 a ddefnyddir gan y deintyddion yn rhai ailddefnyddiadwy, er mai blaenau untro sydd wedi'u hargymell at ddibenion rheoli heintiau. Canfuom nad oedd gan y practis ddyfais ailweinio nodwyddau, a gwnaeth un o'r deintyddion roi gwybod i ni ei fod yn tynnu nodwyddau â llaw, a allai gynyddu'r perygl o anafiadau gan eitemau miniog.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried defnyddio blaenau chwistrellau 3 mewn 1 untro er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.***

***Hefyd, dylid ystyried cael dyfais ailweinio nodwyddau***, ***er mwyn atal y risg o anafiadau gan eitemau miniog.***

Gwelsom fod contractau gwasanaethu a chynnal a chadw ar waith ar gyfer defnyddio'r offer. Nid oedd angen gwiriadau cynnal a chadw arbenigol ar y math o beiriant cywasgu a oedd yn cael ei ddefnyddio, er inni awgrymu y dylid dogfennu'r gwiriadau dyddiol safonol (wrth droi'r peiriant cywasgu ymlaen a'i ddifodd) at ddibenion cyfeirnodi.

Gwelsom fod y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn ystod 2015. Gwnaethom awgrymu bod y dull archwilio sydd ar gael gan Ddeoniaeth Cymru (Addysg Feddygol a Deintyddol i Ôl-raddedigion) yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Tra oedd yr ystafelloedd triniaeth mewn cyflwr da yn gyffredinol, gwnaethom nodi bod y lloriau wedi'u staenio. Gwnaethom argymell bod lloriau sydd wedi'i selio yn cael eu hystyried pan fydd angen newid y lloriau. Roedd handlen un drôr yn un o'r ystafelloedd triniaeth wedi'i thorri, a gwnaeth rheolwr y practis gytuno i gael un newydd yn ei lle.

Gwnaethom edrych ar bum cofnod ar gyfer pob deintydd, ac yn gyffredinol gwelsom fod ansawdd y nodiadau'n gyson ac o safon dda. Ar adeg yr arolygiad, roedd y cofnodion cleifion wedi'u hysgrifennu â llaw. Gwelsom nad oedd cydsynio i driniaeth gan gleifion yn cael ei gofnodi'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaeth y deintydd a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad gytuno i ddechrau dogfennu hyn ar unwaith. Roedd system gyfrifiadurol newydd yn cael ei gosod ym mis Medi 2015, a fydd yn annog cofnodi'r wybodaeth hon. Gwnaethom awgrymu bod llyfr atgyfeirio yn cael ei ddefnyddio er mwyn monitro a dilyn unrhyw atgyfeiriadau a wneir ar gyfer cyngor a thriniaeth arbenigol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwnaeth perchnogaeth Deintyddfa Benllech newid dwylo yn ystod Ebrill 2015.Roedd perchennog/deintydd newydd y practis yn dal wrthi'n datblygu a/neu adolygu systemau, polisïau a gweithdrefnau. Canfuom ei fod yntau a rheolwr y practis yn barod eu cymwynas ac yn frwdfrydig o ran gwella a chodi safonau pan fo'n bosibl. Yn gyffredinol, roedd y practis yn cael ei reoli'n effeithiol ac roedd gan y tîm staff ddealltwriaeth glir o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Rydym wedi argymell ychydig o welliannau o ran cyfleoedd dysgu ar gyfer staff a gwiriadau recriwtio.**

Daeth Deintyddfa Benllech i feddiant y deintydd newydd yn ystod mis Ebrill 2015. Fe'n hysbyswyd bod ganddo bractis arall ger Ellesmere Port ond ei fod hefyd yn bwriadu gweithio rhan-amser yn Neintyddfa Benllech.

Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu diddymu gan y perchennog blaenorol. Felly, roedd y deintydd newydd a rheolwr y practis wedi bod yn brysur wrth ddatblygu a gweithredu set newydd o systemau, polisïau a gweithdrefnau. Canfuom fod rhai o'r systemau heb gael eu profi'n ymarferol. Er enghraifft, roedd rhaglen arfarnu staff wedi cael ei llunio ond heb gael ei chwblhau o ran aelodau staff unigol.  Roedd rhaglen gynefino staff newydd wedi cael ei gweithredu ac yn cael ei defnyddio gan un o'r nyrsys deintyddol o dan hyfforddiant.

Gwnaethom siarad â phob un o'r aelodau staff yn ystod yr arolygiad. Gwnaethant sôn am rai o'r gwelliannau a wnaed gan berchennog newydd y practis gan ddatgan, er enghraifft, fod y systemau erbyn hyn yn fwy trefnus. Cawsom yr aelodau staff i fod yn gyfeillgar, yn barod eu cymwynas ac yn barod i dderbyn ein hawgrymiadau o ran gwelliannau. Wrth drafod â pherchennog newydd y practis a rheolwr y practis, daeth i'r amlwg eu bod yn frwdfrydig o ran cymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau.

Fe'n hysbyswyd bod trafodaethau staff rheolaidd wedi bod yn digwydd ers i'r perchennog newydd gymryd yr awenau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion wedi'u cymryd, felly gwnaethom gynghori'r practis i ffurfioli a chofnodi'r trafodaethau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid ffurfioli cyfleoedd i ddatblygu arfer cydweithio a gweithio mewn tîm, megis cyfarfodydd tîm. Dylid cadw cofnodion er mwyn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â'r trafodaethau a gynhelir ac unrhyw gyfleoedd dysgu a gymerir.***

Gwnaethom edrych ar sampl o'r dogfennau recriwtio a hyfforddi staff. Roedd rheolwr y practis wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant ar gyfer diwedd 2015. Mae cwrs diogelu plant wedi'i drefnu ar gyfer yr holl staff yn ystod Medi 2015. Fodd bynnag, ar wahân i berchennog y practis, nid oedd staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant mewn diogelu oedolion (a adweinir weithiau fel POVA – diogelu oedolion sy'n agored i niwed yn Saesneg), ac felly gwnaethom gynghori iddynt chwilio am gwrs priodol yn y maes hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rydym wedi cynghori'r practis i drefnu hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer yr holl dîm staff.***

Gwelsom fod gan y deintyddion dystysgrifau proffesiynol dilys a pholisïau indemniad. Fe'n hysbyswyd bod y deintyddion wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond ni welsom dystiolaeth o'r gwiriad hwn ar gyfer un o'r deintyddion. Hefyd, fe'n hysbyswyd bod cais yn cael ei wneud ar y pryd i dderbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y perchennog newydd. Gwnaethom atgoffa'r practis i sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Nid yw'n orfodol i staff y practis feddu ar wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol ar y deintydd sy'n cyflogi i ymgymryd â gwiriadau i sicrhau bod staff yn addas i'w cyflogi. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a chanfuom nad oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer aelodau staff cyflogedig eraill.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried derbyn gwiriadau cyfnodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sydd â mynediad at gofnodion y cleifion. Byddai'r arfer hwn hefyd yn unol â chanllawiau'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiogelu plant ac oedolion ar gyfer practisau deintyddol.***

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'r practis yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG. Nid oedd unrhyw gwynion neu bryderon yn parhau ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â pherchennog y practis a rheolwr y practis ynglŷn â'r prosesau cwyno yn gyffredinol, a chawsom ein bodloni bod ganddynt systemau a gweithdrefnau cadarn ar waith pe bai cwynion ffurfiol neu'n anffurfiol yn cael eu derbyn.

## Ansawdd yr Amgylchedd

**Gwelsom fod y practis yn hygyrch, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac ar y cyfan yn addas i'r diben. Fodd bynnag, rydym wedi cynghori perchennog y practis i ystyried pa un a fyddai'n bosibl gwella'r cyfleusterau toiled a'r fynedfa er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ag anawsterau symudedd ddod i mewn i'r practis.**

Mae Deintyddfa Benllech wedi'i lleoli yng nghanol y pentref. Nid oes mannau parcio wedi'u neilltuo ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, canfuom gyfleusterau parcio yn union y tu allan ac yn agos iawn at yr adeilad. Mae'r practis wedi bod yn darparu'r gwasanaeth ers y 1970au, a symudodd i'r lleoliad presennol, sef byngalo ar wahân ac wedi'i addasu, yn 1993.

Mae ramp bach er mwyn cael mynd i mewn trwy ochr yr adeilad, ac mae'r brif fynedfa yng nghefn yr adeilad, lle mae dau o risiau i fynd i mewn. Er bod y mynedfeydd i'w gweld i fod yn rhydd o beryglon, gwnaethom awgrymu bod perchennog y practis yn ymchwilio i'r hyn y gellir ei wneud i wella'r mynediad i'r adeilad yn gyffredinol. Er enghraifft, roedd y ramp yn dechrau ymddangos yn dreuliedig ac, er ei fod yn briodol i'w ddefnyddio i fynd i mewn mewn cadair olwyn, roedd drws ochr arall i fynd i mewn i'r adeilad y gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn ei gael yn anodd ei ddefnyddio.

Roedd yr holl ardaloedd y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn lân ac yn daclus. Mae ystafell aros fawr sydd wedi'i chyfuno â'r dderbynfa. Roedd perchennog y practis yn ystyried troi'r gofod hwn yn drydedd ystafell driniaeth ychwanegol ac yn ardal aros arall lai o faint. Gwnaethom gynghori'r perchennog i gymryd anghenion cyfrinachedd a symudedd cleifion i ystyriaeth yn y cynlluniau hyn ar gyfer y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae dwy ystafell driniaeth o'r maint priodol. Mae un toiled staff/cleifion nad oedd yn bosibl mynd i mewn iddo mewn cadair olwyn ac nad oedd unrhyw addasiadau ganddo ar gyfer pobl sydd ag anableddau corfforol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Fel rhan o ystyriaethau'r perchennog ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, dylid ystyried addasiadau rhesymol eraill, er mwyn gwella'r mynediad i'r adeilad yn gyffredinol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a phobl sydd ag anableddau.***

Wrth edrych ar wahanol ffurflenni a dogfennau, gwelsom wybodaeth a oedd yn awgrymu bod risg posibl o ran y system wresogi bresennol Fe'n hysbyswyd nad oedd y system wresogi'n gweithio ar y pryd ac roeddent yn ymchwilio i gael

system newydd. Byddai'r system newydd yn cymryd i ystyriaeth leihau unrhyw risg iechyd a diogelwch i staff a chleifion.

Fe'n hysbyswyd hefyd y byddai'r seddi yn yr ystafell aros yn cael eu newid a chadeiriau mwy addas yn cael eu gosod ac y byddai'r llawr wedi'i staenio yn yr ystafell driniaeth yn cael ei newid yn y dyfodol.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Mae'r manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Benllech yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Benllech, Ffordd Bangor, Benllech, LL74 8TG

## Dyddiad yr Arolygiad: 28 Awst 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 8 | ***Gwnaethom gynghori'r practis i gadw yn y ffeil diogelu rhag ymbelydredd gopïau o'r holl ohebiaeth a'r tystysgrifau hyfforddiant perthnasol ar gyfer radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd (gan gynnwys y rhai ynglŷn â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.Dylai hyn gynorthwyo'r practis i ddod o hyd i'r wybodaeth*** | Mae tystysgrifau'r deintyddion ar gyfer Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) wedi cael eu ffeilio yn y ffeil diogelu rhag ymbelydredd. | | Eisoes wedi'u ffeilio. |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***berthnasol ac i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.***<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 2.9] | | | |
| 9 | ***Dylid gweithredu system i archwilio delweddau radiograffig yn rheolaidd. Byddem yn awgrymu bod y practis yn cyfeirio at 'Canllawiau Gwella Ansawdd ar gyfer Timoedd Deintyddol'* [5] *gan GIG Cymru, sydd yn rhoi canllawiau ac yn cysylltu dulliau gwella, gan gynnwys llyfr dulliau Deoniaeth Cymru ar gyfer archwiliadau clinigol.***<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 2.9] | Archwiliad ymbelydredd i'w gynnal ar 3/12. | Mr J Sreeram | 3/12 |
| 9 | ***Dylid gweithredu system i sicrhau bod*** | Wedi dechrau cadw llyfryn cofnodion dyddiol o gyfarpar ocsigen. | Mr J Sreeram/<br><br>Ms Wendy Hogan | Wedi dechrau gweithredu'r |

[5] www.1000ofywydauamwy.wales.nhs.uk/hafan

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***gan y practis gyflenwad o feddyginiaethau sydd eu hangen pe bai argyfwng yn digwydd, a dylid newid y rhain yn ôl eu dyddiadau dod i ben.*** <br><br> ***Gwnaethom gynghori'r practis i gynnwys pecynnau nodwyddau a llwybrau anadlu yn y gwiriadau hyn ac i gadw llyfryn cofnodion dyddiol o'r cyfarpar ocsigen.*** <br><br> [Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.6] | Wedi dechrau cadw llyfryn cofnodion wythnosol o feddyginiaethau brys, nodwyddau, a phecynnau llwybrau anadlu. Pe bai unrhyw feddyginiaethau brys yn cael eu defnyddio, byddant yn cael eu harchebu mewn pedair awr ar hugain. | | system. |
| 10 | ***Dylai'r practis ystyried defnyddio blaenau chwistrellau 3 mewn 1 untro er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.*** <br><br> ***Hefyd, dylid ystyried cael dyfais ailweinio nodwyddau**, **er mwyn atal y risg o anafiadau gan eitemau miniog.*** <br><br> [Safon Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9] | Wedi dechrau defnyddio blaenau chwistrellau 3 mewn 1 untro | Mr J Sreeram / <br><br> Ms Wendy Hogan | Y broses wedi dechrau |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 11 | ***Dylid ffurfioli cyfleoedd i ddatblygu arfer cydweithio a gweithio mewn tîm, megis cyfarfodydd tîm. Dylid cadw cofnodion er*** | Caiff cyfarfodydd misol eu cynnal ar ddydd Gwener cyntaf bob mis, a bydd cofnodion yn cael eu cymryd. | Wendy Hogan | 09/10/2015 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***mwyn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â'r trafodaethau a gynhelir ac unrhyw gyfleoedd dysgu a gymerir.***<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 7.1] | | | |
| 12 | ***Rydym wedi cynghori'r practis i drefnu hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer yr holl dîm staff.***<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7 a 7.1] | Trefnu hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed naill ai drwy gwrs ar-lein neu gan y Ddeoniaeth os bydd un ar gael. | Wendy Hogan | 3-6/12 |
| 12 | ***Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried derbyn gwiriadau cyfnodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sydd â mynediad at gofnodion y cleifion.Byddai'r arfer hwn hefyd yn unol â chanllawiau'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiogelu plant ac oedolion ar gyfer practisau deintyddol.***<br><br>[Safon Iechyd a Gofal 7.1] | Cynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff nad oedd wedi cael gwiriadau dros y deuddeg mis diwethaf. | Mr J Sreeram | 3-6/12 |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 13 | ***Fel rhan o ystyriaethau'r perchennog ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, dylid ystyried addasiadau rhesymol eraill, er mwyn gwella'r mynediad i'r adeilad yn gyffredinol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a phobl sydd ag anableddau.*** [Safon Iechyd a Gofal 2.1] | Byddwn yn cysylltu â pherchennog yr adeilad er mwyn gwneud unrhyw addasiadau posibl. | Mr J Sreeram | 3-6/12 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Mr Jayakrishna Sreeram.....**

**Teitl:** **Egwyddor ..............................................**

**Dyddiad:** **22/09/2015........................................................................**